GAIR

I'R

METHODIST:

BRITISH MUSEUM

44.4.2.104.

O waith Mr. J. WESLEY.
1748.

Ail-argraphwyd yn NULUN yn y Flwddyn, 1751.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll
M N O P Ph R S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ s
t th u w y.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O
P Ph R S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r ſ
s t th u w y.

Y Llafarjaid, neu'r Bogeiljaid.

a e i o u w y.

Yr holl Lythyrennau eraill a elwïr Cydſeiniaid.

ab eb ib ob ub wb yb	ba be bi bo bu bw by
ac ec ic oc uc wc yc	ca ce ci co cu cw cy
ach ech ich och uch wch ych	cha che chi cho chu chw chy
ad ed id od ud wd yd	da de di do du dw dy
add edd idd odd udd wdd ydd	dda dde ddi ddo ddu ddw ddy
af ef if of uf wf yf	fa fe fi fo fu fw fy
aff eff iff off uff wff yff	ffa ffe ffi ffo ffu ffw ffy
ag eg ig og ug wg yg	ga ge gi go gu gw gy
ang eng ing ong ung wng yng	ha he hi ho hu hw hy
al el il ol ul wl yl	la le li lo lu lw ly
all ell ill oll ull wll yll	lla lle lli llo llu llw lly
am em im om um wm ym	ma me mi mo mu mw my
an en in on un wn yn	na ne ni no nu nw ny
ap ep ip op up wp yp	pa pe pi po pu pw py
aph eph iph oph uph wph yph	pha phe phi pho phu phw phy
ar er ir or ur wr yr	ra re ri ro ru rw ry
as es is os us ws ys	ſa ſe ſi ſo ſu ſw ſy
at et it ot ut wt yt	ta te ti to tu tw ty
ath eth ith oth uth wth yth	tha the thi tho thu thw thy

GAIR i'r METHODIST:

1748.

I. Adderbyniwch chwi Gyngor? Ai nis derbyniech *Gyngor da*, ie gan un a'ch caſsâei? Pa faint mwy y derbyniwch hynny gan un a gâr eich Eneidiau, fel ei Enaid ei hun?

Fe am gelwir I yn Fethodiſt fel chwithau. A ydych chwi yn credu fod *Ieſu Griſt wedi ei wneuthur i ni gan DDUW yn Ddoethineb ac yn Gyfiawnder ac yn Sanctteiddrwydd ac yn Brynnedigaeth*, 1 Cor. 1. 30? A ydych chwi yn credu y *cyfiawnheir ni yn rhâd, trwy'r Prynnedigaeth ſydd yn Ghriſt Ieſu*, Rhuf. 3. 24? ac mai *trwy Râs*, Grâs yn unig, *yr ydych yn gadwedig trwy Ffydd*, Epheſ. 2. 8? Yr wyf finneu yn credu'r unrhyw. A ydych chwi yn dal fod *Yſpryd DUW yn cyd-tyſtiolaethu ag Yſpryd* pob gwir Gredadyn, ei fod ef yn *blentyn i DDUW*, Rhuf. 8. 16? a bod *cariad DUW wedi ei dywallt ynghalonnau'r* cyfryw, ynghyd a charlad holl Ddynol Ryw? Yr ydwyf fi fel chwithau yn cwbl-gredu mai Gwirionedd DUW yw hyn oll. A ydych chwi yn ei gyfrif *ef*, ac ef yn unig yn wir Griſtion, *yn yr hwn y mae y meddwl a oedd yn Ghriſt Ieſu*, Philip. 2. 5, ac a Sydd

yn rhodio megis ac y rhodiodd Ef, 1 Jo. 2. 6? Yna y mae dy Galon di fel fy nghalon inneu: Moes i mi dy law, a bydded i ni *ymannog i gariad a gweithredoedd da*, Hebr. 10. 24.

2. Attolygaf i chwi gan hynny, er trugareddau DUW, na attalioch y Gwirionedd mewn Anghyfiawnder. *Megis y derbyniaſoch Griſt Jeſu yr Arglwydd, felly rhodiwch ynddo*, Col. 2. 6. *Megis y mae y neb a'ch galwodd chwi yn Sanctaidd, byddwch chwithau Sanctaidd ymhôb ymarweddiad*, 1 Pet. 1. 15. Ymogelwch rhag Ffydd ddiffrwyth, farw: Bucheddwch yn attebol i'ch Crediniaeth: Herddwch Efengyl DUW ein Jachawdwr: *Llewyrched eich goleuni ger bron Dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi*, Mat. 5. 16, ac y gwyddont na chredaſoch yn *ofer*.

3. A gâf fi fod cyn hyfed arnoch a chynnyg i chwi un neu ddau yn rhagor o Gynghorion pennodol? A dderbyniwch chwi hwynt yn garedig? Pwyſwch ac yſtyriwch hwynt ger bron yr Arglwydd: Ac os gwelwch eu bod yn rhai cywir a da, yna dilynwch hwynt.

Y mae rhai o honoch gwedi ymwrthod ag *Eglwys Loegr*, yn yr hon eich maethwyd. Yr ydych gwedi ymwrthod a'r Sacrament, a'r Gwaſanaeth Eglwyſig. Pa'm oedd raid wrth hyn? Gellwch, *heb* ymadael a'r Eglwys, lynu wrth holl wirioneddau mawrion a gogoneddus yr Efengyl: Ac *heb* droi eich cefnau ar na'r Sacrament na'r Gweddiau Eglwyſawl, gellwch yn ſiwr fod yn ſanctaidd ymhob ymarweddiad. Pa'm oedd raid i chwi gan hynny

ymwrthod

ymwrthod a'r Eglwys? Nid wyf yn medru deall hyn.

4. A ddywedwch chwi, "Yr oedd Pobl yn chwerthin am fy mhen ac yn fy llyſenwi, pan awn i'r Eglwys": Er y gwnelont hynny fyth, cyd-ddygwch a'r peth er mwyn *Criſt*; ac nis gwna mo'r niwed i chwi. "Eithr hwynt hwy a ddywedant wrthyf, nad oes gennyf ddim a wnelwyf yno, ac a berant imi fyned ymmaith". Na ruſwch yn hynny; gwyddoch yn eich Cydwybod *fod* gennych a wnelych yno. "Ond yr wyf yn cael gwell cyſſur wrth gadw draw." Geill hynny fod; eithr y mae i chwi fwy bendith i'w chael, pan fyddoch lai eich cyſſur; ſef pan i'ch enllibir, pan fyddoch yn gofidio dros y ſawl nad adwaenont D D U W, pan i'ch trallodir ac i'ch daroſtyngir ger bron yr Arglwydd.

5. Am hynny, nid oes ymma ddim Rheſwm i chwi am ymwrthod a'r Eglwys; eithr y mae i chwi amryw Reſymmau cedyrn i'r gwrthwyneb. Canys 1, Ai ni dderbyniaſoch chwi fwy nag unwaith Fendith gan D D U W yno, yr amſer a fu? 2. Ai ni dderbyniodd amryw rai eraill yr unrhyw, yn y Gweddiau a Swpper yr Arglwydd? Felly eglur yw, na wrthododd D U W mo'r Eglwys: a chan hynny paham y gwrthodech *chwi* Hi? 3. Os bydd ond dau neu dri yn yr holl Gynnulleidfa a adwaenant D D U W, yno y mae *Criſt* yn eu canol hwynt: A lle y mae *Ef*, oni ddylei ei wâs ef fod yno hefyd? 4. Onid oedd Ef yno o'r blaen, ewch chwi y rhai a adwaenwch

waenwch DDUW, a dygwch ei Fendith ef yno gyd a chwi. 5. Os Criſt'nogion ydych, chwychwi yw *Halen y Ddaiar*, Matt. 5. 13. Ond pa fôdd yr helltwch chwi rai eraill, oni ddeuwch i'w plith? Os Criſt'nogion ydych, yr ydych megis ychydig lefein, a ſydd i lefeinio yr holl does, 1 Cor. 5. 6: Eithr oni chyffyrddwch a'r toes, pa fôdd y lefeinir ef? Ai nid ydis wrth hyn yn diddymmu graſlawn fwraid DUW? Yn ola' man, ai nid ydych chwi, wrth ymwrthod a'r Eglwys, yn peri anair i'r gwirioneddau a ddelir neu a broffeſsir gennych? Je ac yn caledu calonnau pobl yn erbyn y gwirionedd; y rhai, oni b'ai hynny, a'i derbyniaſent ef yngharîad yr unrhyw? O meddyliwch am hyn! Os cyfrgollir y rhai'n yn eu hanwiredd, ai ni bydd eu gwaed ar eich pennau chwi?

6. Eithr onid ydych etto yn canfod *grym* y Rheſymmau hyn yn erbyn eich ymadawiad oddiwrth yr Eglwys, o leiaf mi a attolygaf i chwi, na ddiyſtyroch ac na ddibriſioch mo'ni, ac na offioch gynnyg iddi nag Anair nag amharch na llyſenwau: Canys nid yw hynny ddim amgen na *dwyn barn gablaidd* arni, yr hon nis dygei yr Archangel ar Ddiafol ei hun, Jud. 9: Pa faint llai y dygei neb o honom y cyfryw Farn yn erbyn *Eglwys Loegr*, yr hon yr ym yn dal ac yn glynu wrth ei Hathrawiaeth oll, yn caru ei *Llyfr Gweddi gyffredin*, ac mewn cymmundeb a pha un y derbyniaſom gynnifer o Fendithion gan DDUW?

Je, paham y dirmygech neu y dibriſiech

yr

yr *Adeilad* a elwir yn gyffredinol *yr Eglwys*? Y mae'n hoff gennych hyd yn oed y *Ty*, lle yr arferwch ymgyfarfod a'ch Cyfeillion: Ac oni hoffwch chwi y Ty hwnnw, lle y cyfarfuoch mor aml a'ch Cyfaill goreu? Siccr gennyf fod *Dafydd* (er bod ganddo yntef Dy o'r eiddo ei hun) yn hoffi ac yn parchu ie'r *Adeilad*, lle yr arferei ymddangos ger bron DUW; Ac am hynny y llefodd ef mor ddifrifol, *Mor hawddgar yw dy bebyll di, o Arglwydd y lluoedd! Fy enaid a hiraetha, ie ac a flysia am Gynteddau'r Arglwydd!* Pſ. 84. 1, 2.

7. Goddefwch imi roi i chwi un gair o gyngor yn rhagor. *Ymddygwch yn hynaws tuag at yr Eglwyſwyr*, ie tuag at y ſawl ac nad ydynt yn gyfryw ac y dymuner eu bod, ie tuag at y gwaethaf o honynt: Pe bwriech fod neb rhyw un nid yn unig yn wr anfucheddol, eithr hefyd yn gwrthwynebu y Gwirionedd a ddylei ef ei bregethu: ie pe bwriech ei fod ef yn drwg-ſiarad yn erchyll, ac hefyd yn difenwi gwaſanaethwyr y DUW goruchaf: Etto ai gweddus fyddai i *chwi* dalu drwg am ddrwg, neu ſenn am Senn? Na atto DUW. Beth bynnag a wnelo *ef*, y mae eich Rheol chwi yn amlwg; *Nac ymddielwch, rai anwyl; onid rhoddwch le i ddigofaint: Canys ſcrifennedig yw, i mi y mae dial, myfi a dalaf, medd yr Arglwydd*, Rhuf. 12. 19.

8. O gweddiwch, a hynny yn ddifrifol, droſto ef, yr *hwn a wnêl niwed i chwi ac a'ch erlidio*, Mat. 5. 44. Yſcatfydd y meddalhâ DUW ei galon ef wrth hynny: O leiaf gwnâ

nâ hyn feddalhâu eich calon eich hun, a'ch gogwyddo i'w gyfarch ef yn barchus ac yn oſtyngedig, ie pan fyddo waetha' ei foes tuag attoch chwi. Felly ni *orchfygir di gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni*, Rhuf. 12. 21.

9. Ond pe bwriech fod neb o honynt mo'r ddall a chyndyn a'r Phariſæaid gynt, ſe ddywed ein Harglwydd am y cyfryw, *gadewch iddynt, gadewch iddynt; tywyſogion deillion i'r deillion ydynt*, Mat. 15. 14. Nis geill dim fod eglurach na'r cyfarwyddiad ymma. Gwiliwch yn wir rhag *barnu gwâs un arall; i'w Arglwydd ei hun y mae efe yn ſefyll neu yn ſyrthio*, Rhuf. 14. 4. Bydded anhawdd gennych feddwl, chwaethach dywedyd, fod unrhyw Eglwyſwyr yn gyfryw Phariſæaid: Ond pe *baent* felly, *gadewch iddynt*. Os yw boſſibl, na feddyliwch am danynt, oddigerth mewn Gweddi: Na ſoniwch am danynt o gwbl oll: Os rhydd neb i chwi hanes eu geiriau neu eu gweithredoedd beius, diſtêwch ef a'r atteb ymma, *gadewch iddynt*. Os digwydd i chwi eich hunan eu gweled neu eu clywed yn gwneuthur neu yn ſiarad ar *fai*, ymogelwch rhag adrodd y peth wrth arall: Eithr bydded y Gair hwnnw o eiddo ein Harglwydd yn argraphedig yn eich calon, *Beth yw hynny i Ti? Canlyn di Fyfi*; Joan 21. 22.

DIWEDD.